# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Ystafell Gynhadledd 4B - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 17 Mawrth 2020

Amser: 08. 30 - 09.30

# Preifat

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AC, Llywydd (Cadeirydd)<br>Rebecca Evans AC<br>Darren Millar AC<br>Caroline Jones AC<br>Dai Lloyd AC |
| Staff y Pwyllgor: | Aled Elwyn Jones (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | Ann Jones AC, Y Dirprwy Lywydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad<br>Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Gwion Evans, Pennaeth Swyddfa Breifat y Llywydd<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru<br>Elin Roberts, Cynghorwr Polisi i'r Llywydd |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

Anfonodd Sian Gwenllian ei hymddiheuriadau ar gyfer cyfarfod heddiw; roedd Dai Lloyd yn bresennol yn ei lle.

# 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod ar gyfer eu cyhoeddi.

# 3 Trefn busnes

## 3.1 Busnes yr wythnos hon

Nododd y Rheolwyr Busnes newidiadau'r llywodraeth gan groesawu'r dull o ganolbwyntio ar y coronafirws. Penderfynodd y Rheolwyr Busnes gau'r orielau cyhoeddus, gan y gallai'r Cynulliad parhau i gyfarfod yn gyhoeddus drwy ddarlledu a'r cofnod.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i ohirio pob busnes nad yw'n fusnes y llywodraeth yfory ar wahân i Gwestiynau Amserol.

**Dydd Mawrth**

- Cynhelir y Cyfnod Pleidleisio fel yr eitem olaf o fusnes.

**Dydd Mercher**

- Cynhelir y Cyfnod Pleidleisio fel yr eitem olaf o fusnes.

## 3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Rheolwyr Busnes y newidiadau a wnaed gan y llywodraeth i amserlen busnes tair wythnos y llywodraeth i ganolbwyntio ar drafodaethau ar coronafirws.

### 3.3 Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i ohirio pob busnes nad yw'n fusnes y llywodraeth ac eithrio Cwestiynau Amserol am y tair wythnos nesaf o gyfarfodydd llawn.

### 3.4 Dadl Aelod – Dewis Cynnig ar gyfer Dadl

Gan fod y Rheolwyr Busnes wedi cytuno i ohirio pob busnes ar wahân i Gwestiynau Amserol, ni fydd Dadl Aelod.

## 4 Deddfwriaeth

### 4.1 Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru)

Cytunodd y Rheolwyr Busnes y byddent yn ysgrifennu at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i'w hysbysu y bydd y Bil yn cael ei gyfeirio atynt, ac y dylai ystyried pa amserlen a allai fod yn bosibl o dan yr amgylchiadau presennol.

### 4.2 Llythyr gan Gadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

Nododd y Rheolwyr Busnes y llythyr a chytuno ar yr amserlen arfaethedig ar gyfer y Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru) gyda 13 Gorffennaf 2020 yn ddyddiad cau ar gyfer adrodd ar Gyfnod 1 a 16 Hydref 2020 yn ddyddiad cau ar gyfer adrodd ar Gyfnod 2. Nododd y Rheolwyr Busnes y tebygolrwydd uchel y byddai angen i'r amserlen hon newid hefyd.

## 5 Pwyllgorau

### 5.1 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Yn amodol ar gyfarwyddyd cyffredinol i bwyllgorau ganolbwyntio ar fusnes hanfodol, cytunodd y Rheolwyr Busnes y gallai'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gwrdd y tu allan i'w slot arferol i hwyluso tystiolaeth gan Weinidogion.

## 6 Rheolau Sefydlog

### 6.1 Diwygio Rheolau Sefydlog: Newidiadau sy'n deillio o newid enw'r sefydliad

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i'r adroddiad drafft ar ddiwygio Rheolau Sefydlog. Cytunwyd hefyd i atal Rheolau Sefydlog i ganiatáu ar gyfer cynnig i gytuno ar y newidiadau i'r Rheolau Sefydlog yfory, gyda'r newidiadau yn dod i rym ddydd Mercher 6 Mai 2020.

## 7 Coronafeirws (COVID-19)

Cytunodd y Rheolwyr Busnes y dylai'r pwyllgorau, am y dyfodol, ganolbwyntio ar fusnes hanfodol. Cytunwyd hefyd y dylai'r Pwyllgor Busnes gwrdd eto yfory i ystyried opsiynau ar gyfer trefnu ac amserlennu busnes dros yr wythnosau nesaf.